**Cofnodion Grŵp Strategol 03/11/2010 – 10:30yb Canolfan Iaith Popeth Cymraeg, Y Tanerdy, Llanrwst**

**Presennol:**
Yr Athro Merfyn Jones (Cadeirydd); Jim O'Rourke, (Nant Gwrtheyrn); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Trefor Fôn Owen (Coleg Harlech WEA); Gwenan Owain (Coleg Glannau Dyfrdwy); Ian Rees (Coleg Llandrillo); Ifor Gruffydd, Hunydd Andrews, Ellen Roberts (CCiO), Wyn Hobson (Cyfieithydd).

**Ymddiheuriadau:**
Angela Woolrich (Coleg Iâl); Elwyn Hughes a Gwyn Lewis (Prifysgol Bangor); Debbie Tebbutt (Coleg Menai); , Haydn Hughes (CCiO)

Cafodd Papur 'A', Papur 'B', Papur 'C', Papur 'Ch(a), Ch(b)' a Phapur 'D', eu dosbarthu cyn y cyfarfod.

**Penodi Cadeirydd** - cafwyd penderfyniad unfrydol yn y cyfarfod diwethaf i wahodd Merfyn Jones i wasanaethu fel cadeirydd. 'Roedd yr aelodau yn falch dros ben ei fod wedi derbyn ac estynnwyd croeso cynnes iddo i'r cyfarfod.

Croesawodd Ioan Talfryn yr aelodau i'r Tanerdy yn Llanrwst gan egluro fod Popeth Cymraeg wedi buddsoddi i brynu'r adeilad cyfan sydd yn ymestyn dros dri llawr. Gwnaethpwyd gwaith sylweddol ac agorwyd y llawr isaf ym Medi 2009 gydag ystafelloedd dysgu, swyddfeydd a chegin. Bu'r fenter yn un llwyddiannus yn yr ystyr fod mwy o ymrestriadau mewn mwy o ddosbarthiadau yn y dref. Mae cynlluniau i agor bwyty ar yr ail lawr gydag amod fod y staff yn siarad Cymraeg a chynlluniau i ddefnyddio'r llawr uchaf at ddiben ag iddo naws Gymreig. Llongyfarchwyd Popeth Cymraeg ar gyfleuster ardderchog.

**1 Cofnodion cyfarfod 16/06/10 (papur A)** – derbyniwyd y cofnodion

**2. Materion yn codi** –
5.iv mynegwyd yng nghyfarfod y Panel Ansawdd ar 13/10/10 fod y penderfyniad yma i ostwng ffioedd ar gyfer Medi 2010 mor hwyr yn y flwyddyn wedi achosi trafferthion. Gofynnwyd am benderfyniad buan ar gyfer 2011/2012 er mwyn hwyluso trefniadau. Cynigiodd Ian Rees gadw at ffi o £1.10 ar gyfer 2011/12 ac edrych ar y sefyllfa eto ymhen blwyddyn pan fydd y sefyllfa'n gyffredinol yn gliriach. Wedi peth trafodaeth cytunwyd â hyn. Yn ystod y drafodaeth codwyd amryw o bwyntiau:

i. Mae gan y Ganolfan gronfa 'Bwrsari' o £10,000 i gynorthwyo dysgwyr sy'n cael anhawster talu ffioedd cwrs - mae ymgyrch hysbysebu wedi ei threfnu ond mae angen cael y neges allan i ddarpar ddysgwyr sydd ddim yn dod ymlaen i ymrestru oherwydd y gost.
ii. Mae Cronfa Arian Wrth Gefn o £25,000 ar gyfer 2010/2011. Gall dysgwyr sydd ar incwm isel wneud cais am gymorth tuag at gostau teithio, gwarchod a deunyddiau.
iii. Mae gostyngiadau (concessions) yn amrywio ymhlith darparwyr a hyn yn creu cymhlethdod. Penderfynwyd y dylai'r Ganolfan gynnal arolwg o drefniadau darparwyr gyda golwg ar eu cysoni.
iv. Pwysigrwydd cael y balans yn gywir, mae canran uchel o arian CiO (tua 80%) yn dod o'r fformiwla, os byddai codi ffioedd yn golygu fod niferoedd yn disgyn yna o safbwynt busnes dylid cadw'r ffioedd yn isel.
v. Mae edrych ar brosiectau allai ddenu arian allanol e.e. cronfa loteri neu arian o Ewrop yn rhan o Strategaeth y Ganolfan. Mae'n bwysig ehangu gorwelion a pheidio dibynnu'n llwyr ar APADGOS. Gofynnwyd i gynllun gael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**3. Cofnodion y Panel Ansawdd 13/10/10 (Papur B)** - derbyniwyd y cofnodion. Yn absenoldeb Haydn Hughes dygodd Ifor Gruffydd sylw'r aelodau at y materion canlynol:

i. Llais y Dysgwr (pwynt 5) - Mae'r Ganolfan yn y broses o lunio strategaeth ar gyfer CiO yn benodol ac yn awyddus i gysoni a chasglu gwybodaeth am weithgarwch presennol ei phartneriaid gyda'r nod o fabwysiadu trefn fwy effeithlon. 'Roedd ffurflen yn cael ei gyrru allan ar ddiwrnod y cyfarfod i gasglu barn a gwerthusiad o ba elfennau fyddai'n addas i'w gwneud gan ddarparwyr o fewn eu hardaloedd a pha elfennau fyddai'n fwy ystyrlon o gael eu gwneud yn rhanbarthol gan y Ganolfan. Mi fyddai'r ymatebion yn sail i'r Cynllun Strategol. Gwahoddwyd sylwadau ymhen pythefnos gyda'r bwriad o gael drafft erbyn diwedd y mis a chynllun yn ei le cyn y Nadolig.

ii. Arolwg Estyn - parhau mae'r posibilrwydd y bydd arolwg eleni ond dim cyhoeddiad wedi ei dderbyn hyd yma. Mae'n bwysig bod yn barod ac mae cydweithrediad partneriaid yn allweddol. Mi fydd pwyslais mawr ar ddata ystyrlon yn yr arolwg, gan na fydd cymaryddion cenedlaethol ar gael mae CCiO y Gogledd yn pwyso am ddata gan y 5 Canolfan arall er mwyn creu cymaryddion.

iii. AHA – diolchodd IG i bawb am eu cyfraniad, 'roedd pob darparwr wedi ymateb a bydd cyfarfod ar y 24ain Tachwedd i gwblhau'r adroddiad. Mae'n bosib mai hwn fydd yr AHA a fydd yn sail i arolwg arfaethedig Estyn.

iv. CDU – y Ganolfan wedi gwneud cais am grant o £6,000 i APADGOS i gyflawni gwaith ymchwil i CDUau.

**Arsylwadau blynyddol y Ganolfan** – mae cylch Tachwedd o arsylwadau 2010/2011 wedi dechrau yn siroedd Wrecsam, Fflint, Dinbych a Chonwy. Cyflwynwyd dadansoddiad manwl o arolygon 2009/2010 i'r Panel Ansawdd ac 'roedd pwyntiau pwysig yn dod i'r amlwg.

i. Cynnydd yn nifer y graddau 1-2 a lleihad yn y graddau 3-4.

ii. Tiwtoriaid amser llawn yn tueddu i berfformio'n well. Hyn yn bwynt pwysig i'w gadw mewn cof wrth gynllunio gweithlu'r dyfodol.

iii. 40% o diwtoriaid dderbyniodd hyfforddiant ol-arsylwi wedi llwyddo i godi un radd.

Dywedodd GO y byddwn yn gweld llai o raddau un o ganlyniad i'r Fframwaith Newydd.

**4. Cofnodion y Panel Darparwyr 13/10/10 (Papur C)** - derbyniwyd y cofnodion. Dygodd IG sylw'r aelodau at bwynt 5 Cyflwyniad ar Adnoddau'r BBC ar y we. Bu hwn yn gyfle i weld cymaint o bethau gwych sydd ar gael yno, ac 'roedd yn amlwg fod BBC wedi buddsoddi'n sylweddol i greu'r adnoddau gwerthfawr yma. Gofynnwyd i'r Ganolfan gysylltu efo'r BBC i ddiolch iddynt ac i ofyn am y cyfle i roi mewnbwn i unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol er mwyn targedu'n well anghenion dysgwyr mewn dosbarthiadau ffurfiol CiO.

**5. Prosiect Ymchwil -** eglurodd IG fod Colin Baker wedi dod i gyfarfod y Grŵp Strategol 22/04/2009 ym Mangor ac wedi rhoi cyflwyniad i'r ymchwil ac adroddiad ar y canlyniadau cychwynnol. Croesawodd Hunydd Andrews, sy'n ymgymryd â'r ymchwil yma, i'r cyfarfod i roi adroddiad ar yr ail gam.

'Roedd yr holiaduron wedi cael eu dosbarthu i ddysgwyr ar ddechrau eu cwrs cyntaf lefel Mynediad rhwng Medi 2008 a Ionawr 2010 (dychwelwyd 55.7%). Anfonwyd Holiadur 2 i'r un bobl ar ddiwedd eu cwrs (dychwelwyd 31.8%). Holiadur 3 yn cael ei yrru allan ddiwedd yr ail gwrs. 'Roedd y canlyniadau yn dangos ym marn y dysgwr mai:-

i. 'Deall Cymraeg' oedd wedi gwella fwyaf

ii. Hyfforddiant y tiwtor oedd y gweithgarwch mwyaf effeithiol yn y dosbarth a dulliau dysgu traddodiadol yn uchel hefyd, a chanran uchel iawn yn fodlon efo'u cwrs

iii. Rhestrwyd deall gramadeg, diffyg hyder a diffyg geirfa fel eu prif anawsterau

iv. Ar y cyfan 'roedd canlyniad yr ymchwil yn galonogol iawn a 95% yn bwriadu mynychu cwrs arall.

v. Dywedodd HA fod erthygl ar Holiadur 1 wedi cael ei derbyn i'w chyhoeddi yn 'Evaluation And Research in Education'.

Diolchwyd i HA am ei chyfraniad, 'roedd yr aelodau yn awyddus i gael dadansoddiad manylach ar rai pwyntiau fesul darparwr, oedran dysgwr, math o gyrsiau ac ati ac am weld y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi. Addawyd i rannu'r wybodaeth hon cyn gynted ag y byddai ar gael.

**6. Cyllido a Pherfformiad**

i. **Perfformiad yn erbyn targedau 2009/2010 - Papur Ch(a)** – cyflwynodd IG y papur sy'n rhoi'r darlun gwirioneddol a therfynol.

ii. **Dyraniadau Ariannol a Thargedau 2010/2011 - Papur Ch(b)** - cyflwynodd IG y papur oedd yn nodi beth fydd dyraniad darparwyr am y flwyddyn gyfredol a beth fydd targedau UCC am y tair blynedd nesaf.
Dywedodd fod y Ganolfan wedi gwneud cais i gynyddu gwerth yr uned anwytho, bu i hyn gael ei wrthod ond cytunwyd i gynyddu pwysoliad cyrsiau dwys 1.9.
Aeth IG drwy'r pwyntiau gweithredu yn y ddogfen. Bydd yn cyfarfod gyda phob darparwr er mwyn ystyried ydi'r targedau yn gyraeddadwy neu oes angen eu gostwng. Bydd angen adolygu ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf gan y bydd raid i bob darparwr gyrraedd eu targed erbyn diwedd 3 blynedd. Y cam cyntaf fydd gosod targedau ar gyfer blwyddyn 1.
Fel cymorth i ddarparwyr gyrraedd eu targedau gwahoddwyd ceisiadau o'r gronfa o £56K (cyllid wedi ei adhawlio am danberfformiad yn 2009/10 yn bennaf) ar gyfer prosiectau i wella ansawdd eu darpariaeth. Bydd IG yn gyrru templed ar gyfer gwneud ceisiadau i'r darparwyr ymhen wythnos a dylid ei llenwi a chyflwyno'r cais erbyn diwedd Tachwedd 2010.

Derbyniwyd y papurau.

**7. Hyfforddiant** - cyflwynodd IG yr adroddiad - atodiad (i). Eglurodd fod Haydn Hughes yng Nghaerdydd mewn cyfarfod ynglŷn â'r Cymhwyster Cenedlaethol.

**8. Amcanion Strategol - Papur 'D'** - cyflwynodd IG y papur oedd yn adroddiad ar gynnydd rhai o amcanion y Ganolfan. Eglurodd fod y cynnydd CiT yn gyraeddadwy gan fod y cwrs newydd yn apelio ac yn denu cynulleidfa newydd. Bydd y Ganolfan edrych o'r newydd ar y ffordd y mae'r cyrsiau yn cael eu cynllunio a'u darparu, gyda golwg ar sicrhau trefniadau mwy effeithiol, sy'n ddysgwr-ganolog. Bydd papur yn cael ei lunio i'w roi gerbron y Grŵp Strategol nesaf.

**9. UFA** - gofynnwyd oedd yna le i ddarparwyr cyrsiau dwys ddod at ei gilydd a ffurfio grŵp fyddai'n cyfarfod o bryd i'w gilydd. 'roedd yr aelodau yn agored i ystyried a gofynnwyd i'r Nant drafod hyn ymhellach efo'r Ganolfan.

Diolchodd y Cadeirydd am y croeso cyn cloi'r cyfarfod.

**Minutes of the meeting of the Strategic Group held at Popeth Cymraeg Language Centre, Tannery, Llanrwst on 03/11/2010 at 10.30am**

**Present:**
Professor Merfyn Jones (Chair); Jim O'Rourke (Nant Gwrtheyrn); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Trefor Fôn Owen (Coleg Harlech WEA); Gwenan Owain (Deeside College); Ian Rees (Coleg Llandrillo); Ifor Gruffydd, Hunydd Andrews, Ellen Roberts (WfAC), Wyn Hobson (Interpreter).

**Apologies:**
Angela Woolrich (Yale College); Elwyn Hughes and Gwyn Lewis (Bangor University); Debbie Tebbutt (Coleg Menai); , Haydn Hughes (WfAC)

Paper 'A', Paper 'B', Paper 'C', Paper 'Ch(a)', Paper 'Ch(b)' and Paper 'D' had been distributed before the meeting.

**Appointment of Chair** — it had been unanimously resolved at the previous meeting to invite Merfyn Jones to serve as Chair. The members were very pleased that he had accepted, and he was warmly welcomed to the meeting.

Ioan Talfryn welcomed the members to the Tannery in Llanrwst, explaining that Popeth Cymraeg/Welsh Unlimited had invested in the purchase of the building, which extended across three floors. Substantial work had been done, and the ground floor had been opened in September 2009, including teaching rooms, offices and a kitchen. The venture had been a success in the sense that there were more enrolments in an increased number of classes in the town. There were plans to open a restaurant on the second floor, with a condition laid down that the staff be Welsh-speaking, and plans to use the top floor for a purpose that had a Welsh character. Popeth Cymraeg were congratulated on an excellent facility.

**1 Minutes of the meeting of 16/06/10 (paper A)** — the Minutes were accepted

**2. Matters Arising** —
5.iv In the meeting of the Quality Panel on 13/10/10, the view had been expressed that the decision to reduce fees for September 2010 so late in the year had caused difficulties. An early decision regarding 2011/2012 was requested in order to facilitate arrangements. Ian Rees proposed that the fee be kept at £1.10 for 2011/12, and that the position be re-examined in a year's time when the general situation was clearer. After some discussion, this was agreed to.
During the discussion, various points were raised:

vi. The Centre had a 'Bursary' fund of £10,000 for assisting learners who had difficulty in paying course fees — an advertising campaign had been organised, but the message needed to reach learners who did not come forward to enroll because of the cost.
vii. There was a Learning Fund of £25,000 for 2010/2011. Learners on low incomes could apply for assistance towards the costs of travel, child minding and materials.
viii. Concessions varied among the providers, and this was causing complications. It was resolved that the Centre should hold a survey of providers' arrangements with a view to harmonising them.
ix. It was important to get the balance right. A high percentage of WfA funding (about 80%) was formula-derived, and if raising fees entailed a reduction in numbers, then from a business point of view the fees should be kept low.
x. Looking at projects that might attract external funding, e.g. from the lottery fund or the European Union, was part of the Centre's Strategy. It was important to expand horizons and not be totally dependent on DCELLS. Preparation of a plan for presentation at the next meeting was requested.

**3. Minutes of the Quality Panel meeting 13/10/10 (Paper B)** — the Minutes were accepted. In the absence of Haydn Hughes, Ifor Gruffydd drew members' attention to the following matters:

v. Learner Voice (point 5) — The Centre was in the process of drawing up a specific strategy for WfA, and was eager to gather and reconcile information about its partners' existing activity, with the goal of adopting a more efficient system. A form was being sent out on the day of the meeting to gather views and appraisals of which elements it would be appropriate for providers to perform in their areas, and which elements could be more meaningfully performed at a regional level by the Centre. The responses would form a basis for the Strategic Plan. Comments were invited within a fortnight, with the intention of having a draft ready by the end of the month and a scheme in place before Christmas.

vi. Estyn Inspection — there was still a possibility that there would be an inspection this year, but no announcement had been received up to now. It was important to be ready, and the cooperation of partners was critical. There would be considerable emphasis on meaningful data in the inspection; and as national comparators were not available, the North Wales WfAC was pressing for data from the other 5 Centres in order to create comparators.

vii. SAR — IG thanked everyone for their contribution. All providers had responded, and there would be a meeting on 24 November to complete the report. It was possible that this would be the SAR that formed the basis for Estyn's planned inspection.

viii. ILPs — the Centre had applied to DCELLS for a grant of £6,000 to carry out research into ILPs.

**The Centre's annual Observations** — the November cycle of the 2010/2011 observations had begun in Wrexham county borough, Flintshire, Denbighshire and Conwy county borough. A detailed analysis of the 2009/2010 surveys had been presented to the Quality Panel, and important points had come to light.

iv. An increase in the number of grades 1–2 and a reduction in the number of grades 3–4.

v. Full-time tutors tended to perform better. This was an important point to bear in mind in planning the future workforce.

vi. 40% of the tutors who had received post-observation training had succeeded in improving their performance by one grade.

GO said we would see fewer grade 1's as a result of the New Framework.

**4. Minutes of the Providers' Panel meeting 13/10/10 (Paper C)** — the Minutes were accepted. IG drew members' attention to point 5: Presentation concerning BBC Resources on the web. This had been an opportunity to see how many excellent things were available there, and it was clear that the BBC had invested substantially in creating these valuable resources. The Centre was asked to contact the BBC to thank them, and to ask for the opportunity to make an input to any future developments, the better to target the needs of learners in formal WfA classes.

**5. Research Project —** IG explained that Colin Baker had attended the meeting of the Strategic Group on 22/04/2009 in Bangor and had given an introduction to the research and a report on the initial results. He welcomed Hunydd Andrews, who was undertaking this research, to the meeting to present a report on the second stage.
The questionnaires had been distributed to learners who had started their first Entry level course between September 2008 and January 2010 (55.7% had been returned). Questionnaire 2 had been sent to the same people at the end of their course (31.8% had been returned). Questionnaire 3 was sent out at the end of the second course. The results showed that in the learners' opinion:–

vi. 'Understanding of Welsh' was what had improved most

vii. Training by the tutor was the most effective activity in the classroom, and traditional teaching-methods scored highly too; a very high percentage of the learners were satisfied with their course

viii. Understanding of grammar, lack of confidence and lack of vocabulary were listed as their principal difficulties

ix. On the whole, the outcome of the research was very encouraging, and 95% of the learners intended to attend another course.

x. HA said that an article on Questionnaire 1 had been accepted for publication in the journal 'Evaluation and Research in Education'.

HA was thanked for her contribution. The members were eager to have a more detailed analysis of certain points — by provider, learner age, type of course etc — and wanted to see the results published. Sharing of this information as soon as it became available was promised.

**6. Funding and Performance**

iii. **Performance against 2009/2010 targets — Paper Ch(a)** — IG presented the paper, which gave the actual and final picture.

iv. **Financial Allocations and Targets 2010/2011 — Paper Ch(b)** — IG presented the paper, which noted what the allocation to providers would be for the current year and what the CEU targets for the next three years would be.
He said that the Centre had applied for an increase in the value of the induction unit; this had been refused, but it had been agreed to increase the weighting of the intensive courses by 1.9.
IG went through the action points in the document. He would be meeting all providers to consider whether the targets were attainable or whether they needed to be lowered. There would need to be a review at the end of the first year, as all providers would have to reach their targets by the end of 3 years. The first step would be to set targets for year 1.
By way of assisting providers to reach their targets, bids to the £56K fund (principally funding reclaimed for underperformance in 2009/10) were invited, for projects to improve the quality of their provision. IG would, within a week, send providers a template for making bids, and this was to be filled in, and the bid submitted, by the end of November 2010.

The papers were accepted.

**7. Training** — IG presented the report — Appendix (i). He explained that Haydn Hughes was in Cardiff at a meeting regarding the National Qualification.

**8. Strategic Objectives — Paper 'D'** — IG presented the paper, which was a report on progress with some of the Centre's objectives. He explained that progress with WfF was attainable, as the new course was an appealing one and was attracting a new audience. The Centre would be looking afresh at the way the courses were planned and provided, with a view to ensuring more effective, learner-centred arrangements. A paper would be drawn up for placing before the next meeting of the Strategic Group.

**9. AOB** — An enquiry was made as to whether there was scope for providers of intensive courses to join together to form a group that would meet from time to time. Members were receptive to this idea, and Nant Gwrtheyrn were asked to discuss it further with the Centre.

The Chair expressed his thanks for the hospitality, before closing the meeting.

Atodiad (i)

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS
Canolfan Gogledd Cymru
North Wales Centre

Un o fentrau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Initiative

**Adroddiad Hyfforddiant**

**1 Cyrsiau ers y cyfarfod diwethaf**

- **Gwerthusiad ((gradd 1= ardderchog, gradd 5 = gwael iawn))**

| **Cynnwys y cwrs** | **Dulliau cyflwyno** |
|---|---|
| Gradd 1 = 86% | Gradd 1 = 92% |
| Gradd 2 = 14% | Gradd 2 = 8% |

- 19 o'r 21 **darpar diwtor** a hyfforddwyd wedi llwyddo i gael gwaith yn addysgu yn y gogledd y tymor hwn. Y ddau arall ar gael i weithio o fis Ionawr ymlaen.
- Hyfforddiant wedi ei gynnal i'r tîm arsylwi i gydymffurfio â fframwaith newydd Estyn

**2 Y Cymhwyster Cenedlaethol**

**2008-2010**

- Wedi ei gwblhau. Yn ôl y marciau amodol mae pob un o'r 11myfyriwr wedi llwyddo. Y Bwrdd Arholi yn cyfarfod yng Nghaerdydd heddiw (Tachwedd 3) i drafod y marciau.
- Bwriedir cynnal seremoni wobruo yn y flwyddyn newydd

**2010-2012**

- 15 tiwtor wedi cofrestru yn wreiddiol a'r Ganolfan wedi derbyn cytundeb i gyllido'r 15. Yna anffodus tynnodd 4 eu henwau yn ôl ychydig ddyddiau cyn penwythos hyfforddi cynta'r Cymhwyster. Gan fod llety wedi ei drefnu ar eu cyfer parodd hyn ychydig o golled ariannol i'r Ganolfan.
- Bydd y Ganolfan yn gofyn am gynllun gweithredu gan y darparwyr yn dangos sut a phryd y mae'r tiwtoriaid sydd yn anghymwys yn bwriadu cymhwyso
- Ni fydd tiwtoriaid yn derbyn tâl am fynychu y tro hwn. Ad-delir eu costau teithio, yn unol â'r graddfeydd diweddaraf, a rhoddir £100 yn gydnabyddiaeth i'r sawl a fydd yn cyflawni'r Cymhwyster.

**2012 Y Cymhwyster Cyfunol**

- Treialu gan Ganolfan CiO Caerdydd eleni
- Cynnwys a strwythur yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Astudiaethau
- Dyma'r cymhwyster a gynigir gan y Ganolfan yn 2012.



learncymraeg.org

## 1. Paratoi i Addysgu Cymraeg i Oedolion, 2011

- Rhaglen hyfforddi darpar diwtoriaid. Mae'n bosibl y bydd ar ffurf modiwl 20 credyd addysg uwch, yn dibynnu ar drafodaethau gydag Ysgol Addysg Prifysgol Bangor. Ffurflenni cais i'w derbyn erbyn Rhagfyr 16eg
- Hysbyseb ym mhapurau bro siroedd y dwyrain yn hyrwyddo'r modiwl
- 20 wedi datgan diddordeb hyd yma

## 4 Rhaglen Hyfforddi Arfaethedig 2011

- Dysgu'r Cwrs Canolradd
- Y Cymhwyster Cenedlaethol (sesiwn 2 a 3)
- Tîm arsylwi'r Cymhwyster Cenedlaethol
- Paratoi i Addysgu Cymraeg i Oedolion
- Sut i fod yn fentor
- Paratoi ar gyfer arholiadau CBAC
- Achredu Agored Cymru
- Dadawgrymeg
- Gramadeg
- Adnoddau newydd CBAC d/o Cyril Jones
- Cynhadledd IATEFL

Appendix (i)

## *Training Report*

### 1 Courses held since the last meeting

- ***Evaluation (grade 1= excellent, grade 5 = very poor)***

| ***Course Content*** | ***Presentation methods*** |
|---|---|
| *Grade 1 = 86%* | *Grade1 = 92%* |
| *Grade 2 = 14%* | *Grade 2 = 8%* |

19/21of the trained prospective tutors have succeeded to find work this term

- Training provided for Observation Team to comply with new Estyn framework

### 2 *The National Qualification*

***2008-2010***

- *Completed. On a provisional basis all students have succeeded. Examination Board in cardiff today (Nov 3) to confirm marks*
- *Intention to hold an awards ceremony in the new year*

***2010-2012***

- *15 tutors originally registered for the course and the Centre had secured funds for their participation. Unfortunately 4 withdrew at the last moment resulting in a small financial loss for the centre as accommodation had been booked for them.*
- *The centre will be asking Providers to prepare an action plan in relation to unqualified tutors showing how and when they intend to gain the necessary qualification*
- *Tutors will not be paid for attending training this year. Travelling costs will be reimbursed, as per the latest scale, and £100 will be given in recognition to those who successfully complete the National Qualification.*

**2012 *The Blended Learning National Qualification***

- *Currently being trialled by Cardiff WfA centre*
- *Revised content and structure monitored by Board of Studies*
- *This is the Qualification offered by the centre from 2012 onwards*

### 3 *Preparing to Teach Welsh for Adults, 2011*

- *Training programme for prospective WfA tutors. it may be offered as a Higher Education 20 credit module, depending on discussions with Bangor University's School of Education. Application forms to be submitted December 16th*
- Module currently advertised in several north eastern community newspapers

- *20 have declared interest so far*

***Proposed Training Programme, 2011***

- *Teaching the Intermediate Course*
- *The National Qualification (session 2 & 3)*
- *The National Qualification Observation Team*
- *Mentoring Skills*
- Desuggestopedia
- Grammar
- WJEC new resources c/o Cyril Jones
- *Preparing for WJEC examinations*
- *Agored Cymru Accreditation*

*IATEFL Confrence*